



Llawlyfr Rhieni
Ysgol Cymerau,

LLAWLYFR RHINI

CYNNWYS

1. CYNNWYS
2. CROESO I YSGOL CYMERAU
ETHOS A GWERTHOEDD
3. MANYLION AM YR YSGOL
POLISI DERBYN
4. MANYLION STAFF A DOSBARTHADAU
5. RHAGAIR
AMCANION CYFFREDINOL
6. Y CWRICWLWM
Y CYFNOD SYLFAEN
7. CYFNOD ALLWEDDOL 2
PYNCAU CRAIDD
8. PYNCAU DI-GRAIDD
9. PYNCAU DI-GRAIDD
10. PATRWM GWAITH
FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD
PROFION DARLLEN A RHIFEDD STATUDOL
11. SGILIAU AR DRAWS Y CWRICWLWM
DYSGU AR DRAWS Y CWRICWLWM
12. POLISI IAITH
13. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
14. TREFN DDYDDIOL I'R YSGOL
ABSENOLDEBAU
GOFAL BUGEILIOL
CYFLE CYFARTAL
DISGYBLAETH
15. ASESU / ADRODD I RHINI
CYSWLLT A'R CARTREF
16. GWAITH CARTREF
DARLLEN GARTREF
CYMDEITHAS RHINI YSGOL CYMERAU
CYSWLLT A'R GYMUNED
17. YMWELIADAU ADDYSGOL
GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL
ADDYSG GERDDOROL YCHWANEGOL
18. TREFN GWYNO
DOGFENNAU
CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU
ADDYSGOL
CODI TÂL AM DDIFROD
IECHYD A DIOGELWCH
TYWYDD GARW
19. CREFYDD
ADDYSG RHYW
YSGOL IACH
YSGOL GLAN Y MÔR
20. GWISG YSGOL
PLANT YN WAEL NEU WEDI BRIFO
MEDDYGOL
21. CORFF LLYWODRAETHU
22. ADRODDIAD BLYNYDDOL
23. CANLYNIADAU CYFNOD SYLFAEN
24. CANLYNIADAU CA2
25. RHEOLAU YSGOL CYMERAU
26. RHEOLAU YSGOL CYMERAU
27. GWYLIAU YSGOL 2014-15
28. GWYLIAU YSGOL 2015-16
29. POLISIAU



Ysgol Cymerau

Ffordd Mela, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AR
☎ 01758 612001 ✉ RhysWilliams2@gwynedd.gov.uk
Pennaeth / Headteacher — E. Rhys Williams

CROESO I YSGOL CYMERAU

Os ydych yn riant i blentyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, hoffem eich croesawu fel rhieni, ac edrychwn ymlaen at gysylltiad hapus a buddiol yn ystod y blynyddoedd i ddod. Os oes gennych blentyn yn yr ysgol yn barod, 'rydym yn falch o gadw'r cysylltiad â chwi. Mae'r prospectws hwn yn cynnig gwybodaeth am yr ysgol, ei nodau, cwricwlwm a gweithgareddau. Mae'r wybodaeth yn y prospectws yn gywir adeg ei gyhoeddi. Er hyn, ni ellir cymryd yn ganiataol na fydd newidiadau yn digwydd yn ystod y flwyddyn, neu'r blynyddoedd sydd i ddod. Mae croeso i rieni sydd yn ystyried anfon eu plant i'r ysgol drefnu i ymweld a'r ysgol trwy gysylltu a'r Pennaeth. Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder, dewch i siarad gyda ni - mae'r drws bob amser ar agor.

ETHOS A GWERTHOEDD

Yng nghanol yr holl gynllunio, dadansoddi a gweithio i godi safonau, rhaid cofio rhai pethau pwysig. Mae plant sy'n hapus yn gweithio'n well gan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Os cânt barch gan eu rhieni a'u hathrawon, maent yn dangos parch yn ôl ac maent yn fwy awyddus i blesio. Ceisiwn sicrhau ein bod bob amser yn barod i wrando ar blant a'n bod yn deg – nid yw hyn yn syml yn golygu trin pob plentyn yn union yr un fath bob amser. Rhaid trin pob plentyn yn ôl ei anghenion a'i bersonoliaeth. Mae rhai plant yn swil ac eisiau eu canmol un i un tra bo eraill wrth eu bodd yn cael sylw ar goedd. Gyda rhai plant, mae codi ael yn ddigon i'w cael i ymddwyn yn briodol, bydd rhai angen sgwrs dawel a bydd yn rhaid cosbi rhai os ydynt yn cam-ymddwyn yn rheolaidd. Ceisiwn barchu syniadau pob oedolyn a phlentyn o fewn yr ysgol gan ddatblygu ymhellach yr arfer o gefnogi ein gilydd ym mhob agwedd o weithgareddau'r ysgol.

Yn gywir iawn

E. Rhys Williams

LLAWLYFR RHIENTI



YSGOL CYMERAU
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AR

FFÔN: (01758) 612001
e- - RhysWilliams2@gwynedd.gov.uk

PRIFATHRO: Mr Rhys Williams

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR: Cyngorydd Michael Sol Owen

DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod ac Iau) yw'r ysgol hon.
Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

ORIAU DYSGU (heb gynnwys cydaddoli, cinio nac egwyl)

Meithrin	10 awr yr wythnos i bob grŵp, bore neu bawn ~ dwy awr y dydd
Babanod	21 awr yr wythnos
Iau	23.5 awr yr wythnos

Sesiwn y Bore

9:00 – 11:00 (Meithrin)
9.00 - 12.00
9.00 - 12.00

Sesiwn y Prynhawn

1.00 – 3:00 (Meithrin)
1.00 - 3.00 (Cyfnod Sylfaen)
1.00 - 3.30 (Cyfnod Allweddol 2)



POLISI DERBYN YR YSGOL

Dilynir polisi Awdurdod Addysg Gwynedd. Mae'r ysgol yn derbyn plant yn rhan amser o'r Medi sydd yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn llawn amser yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Yr Awdurdod Addysg sydd yn rhoi caniatâd mynediad i blant y dalgylch a phlant all-ddalgylch.

Ein bwriad yn Ysgol Cymerau yw creu ysgol hapus, lle mae pawb yn gwneud eu gorau bob amser, yn mwynhau, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn cael pleser o ddysgu.

STAFF

PENNAETH

Rhys Williams

DIRPRWY BENNAETH

Helen Vaughan Jones

ATHRAWON

Meithrin

Sian Evans

Derbyn a Blwyddyn 1

Nia Vaughan Jones (Cydylynydd Cyfnod Sylfaen)

Nina Williams

Ffion Llewelyn

Blwyddyn 2

Hayley Williams

Karen Roberts-Jones

Athrawon CPA

Menna Jones

Fiona Roberts (Deio Brunelli dros gyfnod mamolaeth)

Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4

Catrin Morris

Ffion Hughes

Sheena Dorkins

Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6

Eleri Wyn Thomas (Cydylynydd CA2)

(Fiona Roberts dros gyfnod mamolaeth)

Helen Vaughan Jones

Mari Lois Hughes

(Cydylynydd CA2 dros gyfnod mamolaeth)

Athrawes GAD

Mari Elin Jones

CYMORTHYDDION

Cyfnod Sylfaen

Ceri Wyn Rowlands

Glynis Ellis

Dilys Hughes

Linda Owen

Ann Griffith

Non Roberts

Llinos Angharad

Lynne Warren

Rosina Jones

Nia Wyn Jones

Ffion Williams

Lona Roberts

ADY

Donna Gill

Rowena Jones

Llinos Jones

Carys Huws

Llio Tate

Vicky Williams

Meirwen Hughes

Mandy Jones

Debbie Jones

Nerys Evans

Celia Williams

Clerigol

Helen Wyn Jones

Sharon Fitzgerald





Rhagair

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn dyfu yn bersonoliaeth lawn, datblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

- a) galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial
- b) sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig
- c) rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Amcanion Cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.
3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn a'r amcanion sydd yn y ddogfen.

Y CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas a'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Y Cyfnod Sylfaen Plant Meithrin, Derbyn, B1 a B2

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn adeiladu ar y Canlyniadau Dymunol presennol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol, ac yn cynnwys agweddau ar y canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1.

Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddatblygu o dan y saith Maes Dysgu -

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles
2. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
3. Datblygiad Mathemategol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
5. Datblygiad Corfforol
6. Datblygiad Creadigol
7. Dwyieithrwydd ac Aml-ddiwyllynnol*




* Ni fydd yn rhaid i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn datblygu 'Sgiliau Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu' drwy gyfrwng y Gymraeg addysgu'r elfen ddwyieithog o'r Fframwaith.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu'r plant mewn

- sgiliau a dealltwriaeth,
- lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
- agweddau cadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am barhau a'u haddysg am gyfnod hirach
- hunan-barch a hunan-hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill
- arsylwi a sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolion, gyda ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth a dysgu am gadwraeth a chynnaladwyedd

Sut bydd y plant yn dysgu?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud. Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad ymarferol trwy chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau. Er enghraifft, dylai mathemateg fod yn fwy ymarferol er mwyn i blant weld sut mae problemau'n cael eu datrys a pha mor bwysig yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando'r plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut mae pethau'n gweithio a dod o hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.



Cyfnod Allweddol 2 (Cwricwlwm Cenedlaethol 2008)



Pynciau Craidd

Cymraeg a Saesneg

Llafaredd / Darllen / Ysgrifennu

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Gwneir cynnydd trwy raglen integredig o lafaredd (siarad a gwrando yn Saesneg), darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd i'r dysgwyr sy'n cydbblethu gofynion yr adrannau Sgiliau ac Ystod yn y rhaglenni astudio. Byddant yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus, cydlynol sy'n ennyn diddordeb, gan weithio fel unigolion ac fel aelodau o grŵp. Bydd eu profiadau yn cynnwys cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Byddant yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithgar sy'n barod i ymateb mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Drwy'r cyfnod allweddol, byddant yn profi ystod fwyfwy eang o destunau anodd, er mwynhad ac er gwybodaeth, er mwyn iddynt allu datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl ac effeithiol. Byddant yn ysgrifennwyr cymwys, gan ysgrifennu'n glir ac yn gydlynol mewn amryw o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Byddant yn meithrin mwy o ddealltwriaeth o'r angen i addasu eu llafar a'u hysgrifennu i gydweddu a'r diben a'r gynulleidfa. Byddant yn gweithio'n fwyfwy manwl gywir ac yn dechrau myfyrio a gwerthuso wrth ystyried eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau eraill.

Mathemateg *Mathematics*

Sgiliau: Datrys problemau / Cyfathrebu yn fathemategol / Rhesymu yn fathemategol

Ystod: Rhif / Mesurau ac arian / Siâp, safle a symud / Trin data

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at fathemateg ac yn estyn eu meddwl mathemategol drwy ddatrys problemau mathemategol, cyfathrebu a rhesymu'n fathemategol gan ddefnyddio cyd-destunau ar draws yr ystod gyfan o fathemateg, ar draws y cwricwlwm ac fel y bo'n gymwys i broblemau o fywyd go-iawn. Byddant yn estyn eu defnydd o'r system rif, gan symud o gyfri'n ddibynadwy i gyfrifo'n rhugl gyda'r pedwar gweithrediad rhif, gan gynnwys yng nghyd-destun arian, er mwyn datrys problemau rhifiadol. Byddant yn ceisio datrys problem gyda dull pen cyn defnyddio unrhyw ddull arall ac yn defnyddio dulliau cyfrifo ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel dealltwriaeth. Byddant yn datblygu strategaethau amcangyfrif a'u cymhwyso i wirio cyfrifiadau, rhai ysgrifenedig ac ar gyfrifiannell. Byddant yn archwilio amrywiaeth helaeth o siapiau a'u priodweddau ac, yng nghyd-destun mesurau, yn defnyddio ystod o unedau ac offer ymarferol yn fwyfwy manwl gywir. Byddant yn casglu, cynrychioli a dehongli data at amryw o ddibenion. Byddant yn dewis, trafod, esbonio a chyflwyno

Gwyddoniaeth

Sgiliau: Cyfathrebu Ymholiad—cynllunio, datblygu a myfyrio

Ystod: Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy, Sut mae pethau'n gweithio

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylent ddatblygu eu sgiliau trwy'r ystod Cyd-ddibyniaeth organebau, Y Ddaear gynaliadwy a Sut mae pethau'n gweithio. Dylid addysgu'r dysgwyr i berthnasu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i gymwysiadau gwyddoniaeth ym mywyd bob dydd, gan gynnwys materion cyfredol. Dylid eu haddysgu i gydnabod bod modd gwerthuso syniadau gwyddonol trwy gyfrwng gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau a mesuriadau. Dylai'r addysgu annog y dysgwyr i reoli eu dysgu eu hunain a datblygu strategaethau dysgu a meddwl sy'n briodol i'w haeddfedrwydd. Dylid eu haddysgu i werthfawrogi safbwyntiau pobl eraill a bod yn ddinasyddion lleol cyfrifol.

Dylai gweithgareddau feithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd a bod yn ddiddorol, pleserus, perthnasol a heriol i'r dysgwr. Dylent gynnig modd i'r dysgwyr gynnig, archwilio a rhannu syniadau, ac estyn, mireinio a chymhwyso eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd newydd. Dylent neilltuo amser ar gyfer meddwl, trafod â chyfoedion a myfyrio.



Pynciau Di-graidd

Technoleg Gwybodaeth / *Information Technology*

Sgiliau: Darganfod a dadansoddi gwybodaeth, Creu a throsglwyddo gwybodaeth

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylid eu haddysgu i ystyried y math o wybodaeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu tasgau a'u gweithgareddau a sut y gallant ddod o hyd i'r wybodaeth honno; defnyddio ystod gynyddol o offer ac adnoddau TGCh i ddarganfod, prosesu a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau penodol diogel ac addas; a datblygu a chyfleu eu syniadau mewn ffyrdd priodol gan ddatblygu ymdeimlad o ddiben a chynulleidfa.

Dylunio a Thechnoleg

Sgiliau: Dylunio, Gwneud — bwyd, defnyddiau hyblyg ac anhyblyg, systemau a rheoli

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylid eu haddysgu i ddylunio a gwneud cynhyrchion syml trwy gyfuno'u sgiliau dylunio a gwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth, a hynny mewn cyd-destunau sy'n cefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill ac sy'n helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd gwneud. Dylid sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae pobl wedi'i gyflawni a'u bod yn ymwybodol o'r syniadau mawr sydd wedi dylanwadu ar y byd. Dylid eu hannog i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddylunio a gwneud, a dylid sicrhau ar yr un pryd eu bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r amgylchedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Hanes

Sgiliau: Ymwybyddiaeth gronolegol, Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol, Dehongliadau o hanes, Ymholi hanesyddol, Trefnu a chyfathrebu

Ystod: Astudio, Cynnal, Gofyn ac ateb cwestiynau

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau. Byddant yn datblygu eu chwilfrydedd am y gorffennol, nodweddion gwahanol gyfnodau yn y gorffennol, o'r cyfnodau cynharaf hyd heddiw, a'r ffyrdd y maent yn wahanol i'w gilydd ac i'r presennol. Byddant yn dysgu drwy ymholi am ffyrdd o fyw gwahanol bobl yn y cyfnodau hanesyddol hyn, gan dynnu ar ddatblygiadau pwysig, digwyddiadau allweddol a phobl nodedig yn eu hardal, yng Nghymru ac ym Mhrydain. Byddant yn cymryd rhan mewn ymholiadau hanesyddol ysgogol a chliir eu ffocws gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys cynrychiolaethau a dehongliadau o'r gorffennol, a threfnu a chyfleu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth gynyddol o ffyrdd.

Daearyddiaeth

Sgiliau: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau, Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau, Ymchwilio, Cyfathrebu

Ystod: Astudio, Gwneud, Gofyn ac ateb cwestiynau

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb y dysgwyr mewn lleoedd a'r byd o'u cwmpas, ac yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod am leoedd a'r byd o'u cwmpas. Trwy astudio eu cymdogaeth eu hunain yng Nghymru, y byd ehangach, gwahanol amgylcheddau a digwyddiadau yn y newyddion, bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut le ydyn nhw a sut a pham y byddant yn newid. Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i gasglu a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafod. Mae daearyddiaeth yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ystyried materion pwysig am eu hamgylchedd, a chydabod sut y bydd pobl o bob cwr o'r byd wedi'u cysylltu a'i gilydd. Ceisir eu hannog i ddeall pwysigrwydd cynaliadwyedd, datblygu pryder gwybodus am ansawdd eu hamgylchedd, a chydabod eu bod yn ddinasyddion byd-eang.



Cerddoriaeth

Sgiliau: Perfformio, Cyfansoddi, Gwerthuso

Ystod: Perfformio, Cyfansoddi, Gwerthuso

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai gweithgareddau cerddoriaeth alluogi'r dysgwyr i adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd addysg am gerddoriaeth yn galluogi'r dysgwyr i ymwneud â cherddoriaeth a mwynhau creu cerddoriaeth. Trwy gymryd rhan weithredol mewn gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sensitifrwydd i gerddoriaeth a'u dealltwriaeth ohoni. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cerddorol sy'n ymwneud â rheoli, trin a chyflwyno sain. Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y sgiliau hynny'n cynnwys canu, chwarae offerynnau ac ymarfer; creu cerddoriaeth yn fyrfyr, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth; a gwrandao ar gerddoriaeth a'i gwerthuso. Dylai'r dysgwyr wella'u gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso trwy ddatblygu a defnyddio'u meddwl a'u sgiliau cyfathrebu, a dylent roi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch.

Addysg Gorfforol

Sgiliau: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, Gweithgareddau creadigol, Gweithgareddau antur, Gweithgareddau cystadleuol

Ystod: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles, Gweithgareddau creadigol, Gweithgareddau antur, Gweithgareddau cystadleuol

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd addysg gorfforol yn annog y dysgwyr i archwilio a datblygu eu sgiliau corfforol sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn amryw o wahanol weithgareddau. Trwy adeiladu ar y sgiliau hynny bydd cyfleoedd i fod yn greadigol ac yn ddychmygus mewn gweithgareddau gymnasteg a dawns. Trwy weithgareddau antur, byddant yn dysgu sut i nofio, bod yn ddiogel a theimlo'n hyderus yn y dŵr, a sut i ddarllen map neu ddilyn llwybrau, fel ei fod yn fwy diogel iddynt fynd ymhellach ac archwilio glan y môr a chefn gwlad. Bydd gweithgareddau cystadleuol yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau gemau a chwarae mewn tîm, yn ogystal â sut i redeg yn gyflymach, neidio'n uwch a thaflu'n bellach. Bydd y dysgwyr yn dechrau deall bod addysg gorfforol yn ymwneud â dysgu sut i deimlo'n iach a pharhau'n ffit tra eu bod yn cael hwyl, a gwybod sut mae'r gwahanol fathau o weithgareddau hyn yn helpu iddynt barhau'n iach ac yn ffit.

Addysg Grefyddol

Sgiliau: Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, Archwilio creadau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol, Mynegi ymatebion personol

Ystod: Y byd, Profiad Dynol, Chwilio am ystyr

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr o'r byd a'r profiad dynol. Mae hyn yn eu hysgogi i ofyn ac ymchwilio cwestiynau dwfn sy'n ymwneud a'u pro fiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan felly adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy weithgareddau ysgogol ymarferol ac archwilio crefydd yn eu cymdogaeth yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau ac yn gasglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl yn helpu datblygu goddefgarwch a pharch, a dylai helpu meithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang. Trwy gyfranogi'n weithredol bydd y dysgwyr yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol i'w cynorthwyo wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas. Bydd y dysgwyr yn mynegi eu teimladau a'u barnau eu hunain, adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.



PATRWM



GWAITH

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniant y dosbarth yn hyblyg; gwaith grŵp, unigol, parau a dosbarth cyfan, weithiau darperir gwaith ar sail oedran, neu bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un blwyddyn ysgol yn cyd~weithio ar un dasg. Dysgir y plant o dan ofal un athro neu athrawes, ac manteisir hefyd ar arbenigeddau staff i ddysgu rhai pynciau. Cynllunir y cwricwlwm ar sail wyth agwedd ar ddysgu gan gynnwys y pynciau craidd a di-graidd. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athrawon. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir profiadau a gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol, mewn unedau penodol a thrwy ddilyn themau penodol.

FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD

Ymhlith blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau mae'r angen i wella safonau llythrennedd a rhifedd gan leihau effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn gosod gweithrediadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith ar gyfer gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae fframwaith cenedlaethol statudol a profion cenedlaethol yn rhan annatod o'r ddwy rhaglen. Yn bennaf oll, offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLIRh sy'n cynorthwyo pob athro/athrawes i gynnwys llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o addysgu'r cwricwlwm. Nod y Fframweithiau yw i gynorthwyo pob athro/athrawes i ystyried bod ganddo/ganddi rôl bwysig o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar dri maes llythrennedd a phedwar llinyn rhifedd, ac mae gwahanol elfennau o fewn y llinynnau hynny. Bydd y disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn gymorth i athrawon bennu'n fanwl gywir y cynnydd a ddysgwylir yn y sgiliau hyn mewn cyd-destun sy'n addas i'r oedran.

Llinynnau Llythrennedd	Llinynnau Rhifedd
Llafaredd	Defnyddio ymresymu rhifyddol
Darllen	Defnyddio sgiliau rhif
Ysgrifennu	Defnyddio sgiliau mesur
	Defnyddio sgiliau data

PROFION DARLLEN A RHIFEDD STATUDOL

Mae gwella safonau llythrennedd a rhifedd yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i lwyddo. Bydd y profion yn helpu athrawon ac ysgolion i nodi cryfderau a gwendidau unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Byddant yn helpu i sicrhau bod y rhai hynny sydd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw yn cael eu nodi a'u cynorthwyo, a byddan nhw'n ein helpu ni i ganfod os yw ein polisiâu yn cael yr effaith briodol. Bydd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith yn statudol. Bydd yn ofynnol i bob dysgwr o Flynyddoedd 2 i 9 sefyll y prawf darllen a'r prawf rhifedd. Dim ond y prawf darllen Cymraeg fydd yn rhaid i'r dysgwyr ym Mlynnyddoedd 2 a 3, sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ei sefyll. Fodd bynnag, caiff ysgolion ddewis rhoi prawf i ddysgwyr Blwyddyn 3 yn Saesneg hefyd, os ydyn nhw'n dymuno. O Flwyddyn 4 ymlaen, bydd dysgwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn sefyll profion Cymraeg a Saesneg. Bydd rhieni yn derbyn adroddiad am gyrhaeddiad eu plant/plentyn yn y profion ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

SGILIAU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl a TGCh i ddysgwyr 3 - 19 oed. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.



Datblygu Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

Datblygu TGCh Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.



DYSGU AR DRAWS Y CWRICWLWM

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.



Y Cwricwlwm Cymreig 7 – 14 oed

Dylai dysgwyr 7—14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Addysg Personol a Chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar, hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.



Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith

Dylai dysgwyr 11—19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, ag weddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.



Bwyd a Ffitrwydd Mae Cwricwlwm 2008 yn atgyfnerthu safle addysg bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n sylweddol. Bydd sgiliau paratoi bwyd ymarferol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 2.

POLISI IAITH

AMCANION CYFFREDINOL

Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r iaith yn naturiol i wahanol ddibenion. Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog i'w galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

AMCANION PENODOL

Y Cyfnod Sylfaen


Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'w alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law. Yna adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y dysgwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Cyfnod Allweddol 2

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Caiff hwyr-ddyfodiaid fynychu Uned Iaith bwrpasol am dymor. Bydd y Pennaeth â'r staff, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg a amlinellir uchod.

Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd

Rydym yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i hybu defnydd addysgol a chymdeithasol o'r iaith Gymraeg. Hanfod y siarter ydi annog a gwobrwyo'r ysgolion sy'n llwyddo i greu agwedd bositif tuag at yr iaith a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y plant. Mae'n bwysig bod pobl ifanc Gwynedd yn gallu dysgu, byw a gweithio trwy ba bynnag iaith a ddewisant, a bod ganddyn nhw'r sgiliau ieithyddol i fanteisio'n llawn ar y bywyd addysgol, cymdeithasol ac economaidd sydd gan Wunedd i'w gynnig



Cydlynnydd ADY a Plant sy'n Derbynn Gofal – Mrs Helen Vaughan Jones

Ein nod yn yr ysgol yw gwneud ein gorau i sicrhau tegwch addysgol a chymdeithasol i bob plentyn ar draws yr ystod gallu. Ymdrechwn at ofalu bod pob unigolyn yn cael y cyfle gorau i weithio hyd at eithaf ei allu a hynny trwy waith ysgrifenedig neu ymarferol mewn cyd-destun dwyieithog.

Weithiau byddwn yn teimlo y byddai o fantais i blentyn dderbyn sylw ychwanegol i oresgyn problemau penodol. Gall hyn fod yn drefniant tymor hir neu dros dro. Fel arfer byddwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sylfaenol megis darllen, ysgrifennu, sillafu a mathemateg, gyda'r plentyn yn cael cymorth (gan amlaf mewn grŵp bychan) gan aelod o staff ar ôl trafodaeth hefo'i rieni. Os oes angen, gellir dwyn i mewn asiantaethau eraill megis y Seicolegydd Addysg, defnyddio Unedau Dalgylchol yn rhan-amser a.y.y.b. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer plant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl yr adnoddau cyllidol a ddyrennir ar eu cyfer yn flynyddol.

Weithiau gosodir plentyn ag anghenion dwys ar ddatganiad ar ôl trafod gyda'r rhieni. Cyllidir ar gyfer plant sydd ar Ddatganaid yn unol â'r ddarpariaethau a nodir yn y Datganaid. Yr Awdurdod Addysg Lleol fydd yn ariannu'r ddarpariaeth ychwanegol angenrheidiol.

Bydd athrawes Gwybyddiaeth a Dysgu yn ymweld yn wythnosol i gefnogi grwpiau o blant gyda gwaith llythrennedd a rhifedd. Caiff gwaith plant mwy abl a thalentog ei gynllunio'n ofalus i'w hystyng.

*Gweler ddiwedd y llawlyfr am grynoded o'r polisi Darprau ar gyfer Plant Mewn Gofal

Crynodeb o'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cyn belled ag sydd bosibl, gweithiwn i gynnig cyfle teg i bob plentyn gael datblygu yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn addysgol i gael manteisio ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Canllawiau

1. Cyflawni gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.
2. Defnyddio Meini Prawf Mynediad Gwynedd i gynllunio'r ddarpariaeth orau posibl.
3. Dilyn trefn o Gyfnodau 'Gweithredu gan yr Ysgol', 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy', 3* a Datganiad. Bydd y Cydgysylltydd yn cysylltu ag arbenigwr o'r tu allan fel bo'r angen. Bydd gan bob plentyn sydd ar un o'r cyfnodau hyn Gynllun Addysg Unigol (CAU).
3. Sicrhau cynnwys y rhieni a'r disgyblion yn y trefniadau asesu ac adolygu anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y CAUau.
4. Cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd pob disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol.
5. Gall rhieni sydd a chŵyn gysylltu a'r canlynol yn y lle cyntaf— Y Cydlynnydd ADY / y pennaeth / cynrychiolwyr y rhieni ar y Corff Llywodraethu / Llywodraethwr penodedig ADY

Casgliad

Sicrhau bod trefniant clir o fewn yr ysgol er lles yr holl blant yn ein gofal, i ni geisio arfogi'r plant gyda'r un sgiliau a phrofiadau angenrheidiol i'w galluogi i gyfrannu i fywyd llawn yr ysgol a'r gymdeithas, heb wneud iddynt deimlo'n israddol neu'n wahanol.

Plant ag Anghenion Corfforol

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu **pob** plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Mae ysgol Cymerau wedi ei addasu ar gyfer plant anabl gan gynnwys ystafell therapi newydd bwrpasol.



TREFN DDYDDIOL YR YSGOL

Ni ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.50 a.m. (onibai eu bod yn mynd i'r Clwb Brecwast sy'n agored o 8.10 a.m. ymlaen). Dim ond o'r amser yma ymlaen y gallwn sicrhau y bydd oedolyn ar gael pe digwyddai damwain. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod eich plentyn yn yr ysgol erbyn 9.00 a.m. ~ mae prydlondeb yn arferiad da i'w feithrin. Bydd plant sydd yn cyrraedd ar ôl amser yn cael eu marcio'n 'hwyr' ar y gofrestr. Os digwydd hyn yn rheolaidd, mae rheidrwydd arnom i gysylltu â'r rhieni. Os bwriedwch i rywun gwahanol ddod i nôl eich plentyn, mae angen i chwi adael i ni wybod trwy alwad ffôn neu nodyn. Ni allwn ddibynnu ar air plentyn, a gall camddealltwriaeth fod yn beryglus. Bydd y plant yn gadael yr ysgol 3.00 p.m. (Cyfnod Sylfaen) ac am 3.30 p.m. (CA2). Bydd y plant Meithrin bore yn gadael am 11.00 a.m. Ni fyddwn yn gollwng yr un plentyn M, D, B1 na B2 heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu bod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, ac yn methu cyfarfod eich plentyn ar ddiwedd y dydd gofynnwn i chi ffonio'r ysgol er mwyn i ni fedru gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich plentyn. Dylai pob plentyn CA2 ddychwelyd i'r ysgol a dweud wrth athro neu athrawes os nad oes neb wedi dod i'w cyfarfod.

ABSENOLDEBAU

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bob absenoldeb plentyn. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m. os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol - i sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn yn ein gofal ac i ni fod yn gwybod pam fod plentyn yn absennol. Mae'n bosibl caniatáu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol os oes gwir angen, er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg eich plentyn.

Presenoldeb 2013 - 2014 = 94.04% / Presenoldeb 2014 – 2015 = 93.70%

GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes dosbarth, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan ddisgybledig. yn gyfrifol ac i barchu eraill. Teimlwn yn hydreus y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.



CYFLE CYFARTAL

Mae polisi cyfle cyartal yr ysgol yn nodi na fydd unrhyw wahaniaethu yn digwydd yn Ysgol Cymerau o ran rhyw, hil, diwylliant, lliw, dosbarth, iaith, anabledd neu allu addysgol. Gweler ddiwedd y llawlyfr am grynodedeb o'r polisi.

DISGYBLAETH

Mae polisi'r ysgol ar ddisgyblaeth yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant. Ein nod yw meithrin hunanddisgyblaeth a pharch at y gymdeithas yn gyfan yn ogystal ag at eiddo o fewn yr ysgol ac allan yn y gymdogaeth.

Er mai cyfrifoldeb y rhieni yw'r plant y tu allan i oriau ysgol ymddiddorwn ynddynt bob amser, a byddwn yn ymateb pan glywn am gamymddwyn y pryd hynny.

Ceisiwn sicrhau fod rheolau'r ysgol yn syml ac yn rhesymol. Trafodir y rheolau hyn gyda'r plant a'u hannog i sylweddoli eu bod wedi eu sylfaenu ar synnwyr cyffredin ac mor rhesymol yr ydynt. Gwneir defnydd o'r Cyngor Ysgol fel fforwm i drafod a diwygio y rheolau.


Disgyblir plant yn deg a chysylltir â'r cartref pan deimlwn fod angen hynny. Dim ond ar achlysuron dwys iawn yr ystyrir eithrio plant o'r ysgol. Dilyniar canllawiau sydd ym mholisi'r ysgol. Defnyddir Amser Cylch yn yr ysgol yn aml i drafod materion yn ymwneud â disgyblaeth

ASESU / ADRODD I RIENI

Mae asesu parhaus wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn chwi. Bydd plant Meithrin a Derbyn yn cael eu hasesu yn ôl canllawiau asesu y Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor cyntaf.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn (o M i B6). Bydd yr adroddiad yn cynnwys :

- Sylwadau ar ddatblygiad eich plentyn o fewn holl bynciau'r Cyfnod Sylfaen neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Lefelau cyrhaeddiad eich plentyn yn y pynciau craidd (Cymraeg, Mathemateg a Datblygiad Personol) ar ddiwedd B2, (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) ar ddiwedd B6
- Cymariaethau rhwng canlyniadau eich plentyn (B12 a B16) gyda chanlyniadau cyfartalog cenedlaethol.
- Gwybodaeth am sgorau profion darllen/rhifedd eich plentyn
- Sylwadau gan yr athro/athrawes ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol
- Cofnod o bresenoldeb y plentyn yn ystod y flwyddyn.
- Argymhellion i'r plentyn a'r rhieni.
- Dyddiad ac amser i drafod yr adroddiad.
- Dyddiad agor yr ysgol ym mis Medi.



Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol.

Cynhelir Nosweithiau Rhieni ddwy waith y flwyddyn. Rhydd hyn gyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athro/athrawes ddosbarth. Cynhelir noson rieni yn Nhymor yr Haf yn ogystal yn dilyn dosbarthu'r adroddiad fel bod modd i rieni drafod adroddiad eu plentyn gyda'r athro/athrawes.

Cwblheir asesiadau athrawon ar ddiwedd pob blwyddyn addysgol. Yn ôl rhaglen y Cwricwlwm Cenedlaethol bydd disgyblion B2 yn cael asesiad mwy ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r un modd i ddisgyblion B6 ar ddiwedd CA2. Bydd adroddiad llawn o lefel o gyrhaeddiad disgyblion yn B2 a B6 yn y pynciau craidd yn cael ei baratoi ar gyfer rhieni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

CYSWLLT A'R CARTREF

Mae ar bob ysgol angen cefnogaeth rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ddyddiol ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Byddwn yn gofyn i rieni a phlant, ynghyd â'r Pennaeth arwyddo **Cytundeb Cartref Ysgol** sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr addysg gorau posibl a phob chwarae teg a chyfle i lwyddo i bob plentyn.

Partneriaeth – Rôl yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod:

- *Cyngor ac arweiniad ar ddatblygiad y plant yn cael ei ddarparu i rieni.
- *Datblygiad pob plentyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'r rhieni yn ystod cyfarfodydd noson rhieni ac mewn adroddiad ysgrifenedig blynyddol.
- *Rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw anhawsterau neu broblemau sy'n amlygu eu hunain, neu sy'n amharu ar ddatblygiad addysgol plentyn.
- *Ethos ac awyrgylch yr ysgol yn hyrwyddo gallu'r plant i gyrraedd eu potensial.
- *Gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau ysgol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.
- *Côt ymddygiad ac amgylchedd gofalgwr wedi ei sefydlu.
- *Rhaglenni Astudio yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn addas i oedran, tueddiadau a gallu pob plentyn.

Partneriaeth – Rôl y Rhieni:

Gobeithiwn y bydd rhieni yn ein cefnogi drwy:

- *Ddeall anghenion eich plentyn tra yn yr ysgol
- *Fod yn barod i gyfathrebu gyda'r ysgol a mynychu nosweithiau rhieni'n rheolaidd.
- *Gymryd diddordeb yn y gwaith y mae eich plentyn yn ei wneud a chefnogi ei astudiaethau.
- *Rannu pryderon am addysg, iechyd neu ymddygiad eu plentyn.
- *Gefnogi côd ymddygiad yr ysgol.

Efallai y bydd adegau pan fyddwch angen cysylltu â ni i drafod plentyn - 'rydym bob amser yn falch o dderbyn galwad ffôn neu lythyr i drefnu apwyntiad cyn gynted ag y bo modd.



GWAITH CARTREF

Nid yw addysg wedi ei gyfyngu i oriau ysgol nac ychwaith o fewn muriau'r ysgol.

Yn achlysurol rhoddir gwaith cartref ffurfiol i'r plant. Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant.

Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu. Disgwylir i'r rhieni hybu ymroddiad y plant yn eu gwaith ysgol ac y byddant yn ceisio dyfnhau ymwybyddiaeth eu plant yn eu treftadaeth a'r byd o'u cwrmpas yn ogystal ag yn sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhif.

O dro i dro gall athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn gwblhau'r dasg.

DARLLEN GARTREF

Rydym yn argyhoeddiedig fod darllen yn rhan hynod bwysig yn natblygiad addysgol plentyn. Oherwydd hyn, mae gennym gynllun Darllen Gartref lle gofynnir i rieni ddarllen gyda'u plant yn rheolaidd. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf, llyfrau Cymraeg a ddefnyddir, ac yna'r ddwy iaith o hynny ymlaen. Wrth gwrs, cynllun gwirfoddol ydyw er lles eich plentyn chi, ac nid oes gorfodaeth arnoch i'w ddilyn. Bydd aelod o staff yn monitro llyfrau Darllen Gartref plant yn y Cyfnod Sylfaen yn rheolaidd, ac yn eu newid pan fo angen. Yn CA2, rydym yn disgwyl i'r disgyblion ddod a'u llyfrau darllen gartref eu hunain i'w newid a'u bod yn dechrau dewis llyfrau addas eu hunain. Yn ogystal, i hybu diddordeb mewn darllen byddwn yn dosbarthu catalogau llyfrau o bryd i'w gilydd. Nid oes unrhyw bwysau arnoch i brynu.

CYMDEITHAS RHieni YSGOL CYMERAU

Nod y Gymdeithas yw hyrwyddo addysg y plant drwy godi arian i brynu adnoddau, cynnal nosweithiau cymdeithasol/codi arian a dyfnhau'r berthynas rhwng staff, rhieni a phobl eraill sy'n ymwneud â'r ysgol ac yn cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol a chefnogol.

'Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas Rhieni am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u haelioni.



CYSWLLT A'R GYMUNED

Rydym yn credu bod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac yn helpu'r plant i feithrin parch at ei thraddodiadau a'i phobl. Byddwn yn ceisio meithrin cyswllt clos gyda'r gymuned leol, trwy weithgareddau megis Yr Urdd, gwasanaethau Diolchgarwch ac eraill yn y capel neu'r eglwys lleol, cyngherddau, canu i'r henoed a.y.y.b. Yn achlysurol, bydd aelodau o'r gymuned a gwasanaethau cyhoeddus yn dod i'r ysgol i sgwrsio a chyd-weithio gyda'r plant.





YMWELIADAU ADDYSGOL

Credwn fod mynd a phlant ar ymweliadau y tu allan i'r ysgol yn rhoi profiadau gwerthfawr iddynt, yn cyfoethogi eu bywydau a'u paratoi i fod yn ddinasyddion aeddfed.

Gall fod yn a) taith gerdded leol o gwmpas Pwllheli b) taith diwrnod mewn bws neu c) ymweliad lle bydd plant yn aros dros nos.

Yn achos b) a c) byddwn yn anfon manylion am y daith a gwybodaeth berthnasol i'r cartref gan fynnu fod yr ysgol yn cael caniatad y rhieni cyn y caniateir i'r plentyn ymuno a'r gweithgaredd.

Lle bo elfen o gost e.e. cludiant, mynediad, ynghlwm a'r gweithgaredd gofynnir i rieni am gyfraniad i glirio'r gost. Os na dderbynir y cyfraniadau angenrheidiol yna rhaid fydd gohirio'r ymweliad.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL


Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt. Cystadleuwn yn Eisteddfod yr Urdd ac mewn cystadlaethau eraill a drefnir. Mae timau pêl-droed, criced, pêlrwyd a rygbi yn yr ysgol a chymerant ran mewn cystadlaethau a drefnir un ai yn yr ysgol neu ar ôl oriau ysgol. Cefnogir hefyd gymdeithasau a chlybiau y mae'r plant yn perthyn iddynt y tu allan i oriau'r ysgol ac anogir y plant i ymuno â hwy.

Mae'r gweithgareddau hyn a drefnir gan yr ysgol i gyd yn amodol ar inni sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau'r clybiau/cymdeithasau uchod a gofynnir i rieni a/neu warcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.

Cefnogwn weithgareddau yn y gymdeithas leol a threfnwn weithgareddau cyhoeddus. Cefnogwn amryw o fudiadau dyngarol. Trefnir gweithgareddau, yn achlysurol, i godi arian at Gronfa'r Ysgol.

ADDYSG GERDDOROL YCHWANEGOL

Mae athrawon teithiol yn ymweld â'r ysgol i roi gwersi ffidil, soddgrwth, telyn, chwythbrennau, gitar ac offerynnau pres i'r plant hynny a fanteisia ar y cyfle. Cost y gwersi yw £3 yr un - £90 am y flwyddyn.



TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrsasol yn y Gymraeg a Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg â'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

DOGFENNAU

Mae gennych hawl os y dymunwch, i wneud cais i'r ysgol i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Cylchlythyrau Cynulliad Cymru, Polisiau yr Awdurdod Addysg, Polisiau a Nodau Cwricwlaidd y Corff Llywodraethu, adroddiadau Estyn ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith a'r adroddiad blynyddol i rieni.

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL

Yn unol â Deddf Addysg 1988 mae gweithgareddau'r ysgol, a gynigir i ddisgyblion yn ystod oriau'r ysgol, ar gael i bawb yn ddiwahan yn ddi-dâl. Fodd bynnag, rhoddir hawl i'r Awdurdod Addysg Lleol neu'r ysgol ddethol fel y gallant godi tâl am weithgareddau ychwanegol os dymunant hynny, e.e. gwersi offerynnol, gweithgareddau cwricwlaidd.

Bydd yr ysgol, hefyd, yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi/rhoi cymorth i unrhyw weithgaredd a drefnir gan yr ysgol, boed yn ystod neu du allan i oriau'r ysgol. Eglurir wrth y rhieni beth yw cost gweithgaredd megis taith addysgol. Os na lwyddir codi'r swm hwnnw trwy gyfraniadau gan rieni yna, gall y bydd rhaid canslo'r gweithgaredd. Gweler ddiwedd y llawlyfr am grynodedeb o'r polisi.

CODI TÂL AM DDIFROD

Os difrodir eiddo'r ysgol yn fwriadol gan blentyn yna, gall yr ysgol godi tâl ar y rhieni am y difrod hwnnw

IECHYD A DIOGELWCH

Mae Iechyd a diogelwch yn faes pwysig iawn yn yr ysgol am resymau amlwg.

Mae asesiadau risg cyson yn cael eu cynnal mewn amryw o feysydd yn yr ysgol mewn ymgais i geisio adnabod peryglon posibl.

Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal hefyd cyn mynd ar unrhyw daith addysgol

TYWYDD GARW

Os bydd eira mawr, ceisiwch gysylltu â'r ysgol cyn 9.00 a.m. Os daw'n eira trwm yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu â chwi, neu yn sicrhau fod rhywun gartref cyn gadael unrhyw blentyn. Mewn argyfwng, sicrhawn fod plentyn yn cael ei adael gyda chymydog neu ffrind cyfrifol.





CREFYDD

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Trefnir addoliad dyddiol unai yn dorfol neu fel dosbarthiadau unigol.

Gwahoddir gweinidogion y dref i'r ysgol i gydaddoli â'r plant ac i arwain mewn addoliad.

Weithiau trefnir gwasanaethau arbennig ar Ddiolchgarwch a'r Nadolig, yn arferol yn addoldai'r dref, pan wahoddir y rhieni, llywodraethwyr yr ysgol, etc. iddynt. Cesglir arian ynddynt tuag at achosion da.

Croesawir cyfleon i gyfrannu neu i ymuno mewn gwasanaethau crefyddol a drefnir gan yr eglwysi neu fudiadau yn y dref.

Mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

ADDYSG RHYW

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm ac y dylai'r rhieni ymgynghori â'r Pennaeth ynglyn â'u datganiad ar y mater. Yn arferol astudir addysg rhyw o fewn y themâu a ddilyniir gan y plant gan sicrhau fod y cyfan yn addas i'w hoedran. Gwahoddir siaradwyr i mewn yn ôl y galw i ymdrin â materion penodol.

Cydnabyddir fod gan yr rhieni hawl i dynnu eu plant o wersi addysg rhyw os mai dyna yw eu dymuniad. Gweler ddiwedd y llawlyfr am grynodedb o'r polisi.

YSGOL IACH

Ers peth amser mae'r ysgol wedi bod yn rhoi sylw i agweddau yn ymwneud ag iechyd a lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Ym Medi 2006 derbyniwyd yr ysgol yn ffurfiol yn rhan o Gynllun Ysgol Iach Gwynedd sydd yn cael ei redeg drwy Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r ysgol, a phawb sydd yn ymwneud â hi – yn blant, rhieni, staff, llywodraethwyr a charedigion angen ymrwymo i nod y cynllun sef cyfrannu'n bositif tuag at sicrhau bod yr ysgol a'r amgylchfyd yn hyrwyddo iechyd yr holl gymuned.

Ysgolion Iach Gwynedd



Mae deg thema i'r cynllun ac fe fydd yr ysgol yn gweithio ar tua tri thema bob blwyddyn.

Llwyddodd yr ysgol i fynd drwy CAM 1 yn ystod 2007-08, Cam 2 yn ystod 2009-10 a Cam 3 yn Hydref 2013.

YSGOL GLAN Y MÔR

Mae gennym gyswllt da iawn gyda'r Ysgol Uwchradd leol, sef Ysgol Glan y Môr a bydd y plant hynaf yn ymweld i wahanol weithgareddau nifer o weithiau mewn blwyddyn. Ar ddiwedd B6, bydd y plant yn cael cyfle i gael ymweliad mwy ffurfiol i'w paratoi at fis Medi. Bydd cyfle i'r rhieni gyfarfod â rhai aelodau o'r staff hefyd. Y nod yw hyrwyddo'r trosglwyddiad i bawb. Ar ddechrau B6, cewch wybodaeth am Ysgol Glan y Môr a sut i wneud cais i'r AALI pe baech eisiau i'ch plentyn fynychu ysgol uwchradd wahanol



GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Anogwn y rhieni ofalu y gwisga'r plant hi. Dyna yw dymuniad y mwyafrif helaeth o'r rhieni.

Crys polo gwyn*
Cardigan/jersi - *navy*
Crys chwys (*navy*)*
Sgert/trowsus – *navy*

* ar werth yn yr ysgol (gyda bathodyn yr ysgol arnynt)

PWYSIG! - Rhaid gofalu bod enw'r plentyn ar bob dilledyn.

Gellir cael manylion am y wisg gan y Pennaeth ynghyd â brasamcan o gost pob eitem.

PLANT YN Wael NEU WEDI BRIFO

Os bydd ar blentyn angen gweld meddyg o ganlyniad i ddamwain neu waeledd yna gwnawn ein gorau i gysylltu â'r rhieni yn gyntaf. Dyna pam mae'n bwysig i ni gael gwybod sut i gysylltu â chi yn eich cartref neu eich gwaith, a phwy yw'r meddyg teulu.

Os yw plentyn i gymryd ffisig neu dabledi yn ystod oriau'r ysgol yna, **rhaid** i'r rhieni lenwi ffurflenni pwrpasol sydd ar gael yn yr ysgol.



MEDDYGOL

Mae profion gweld a chlyw yn cael eu cynnal gan aelodau o'r Gwasanaeth Iechyd. Bydd y deintydd ysgol yn ymweld yn rheolaidd i archwilio dannedd y plant. Yn dilyn archwiliad, pe bai ar eich plentyn angen triniaeth, cewch ddewis defnyddio deintydd yr ysgol neu un personol. Bydd gwahanol bobl hefyd yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol i drafod glendid, smocio a.y.y.b. gyda rhai o'r plant. Mae gan yr ysgol gysylltiadau clôs gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, y Seicolegydd Addysg, y Gwasanaethau Meddygol a Chymdeithasol. 'Rydym i gyd yn cyd-weithio er lles y plant. Os oes gan blentyn broblem penodol, byddwn yn creu Cynllun Meddygol Unigol i sicrhau dealltwriaeth o bob ochr – cysylltwch â ni os tybiwch fod eich plentyn angen hyn.



CORFF LLYWODRAETHU

Mae llywodraethwyr yn gweithio ar y cyd gyda phennaeth a staff yr ysgol i sicrhau bod ysgolion yn addysgu a dysgu ein plant yn llwyddiannus a chodi safonau. Mae cyrff llywodraethu'n bodoli fel bod ysgolion yn atebol yn gyhoeddus i rieni, yr ALI a'r gymuned leol am yr hyn a wnânt, am y canlyniadau a gânt, ac am y ffordd y mae'r adnoddau'n cael eu dyrannu.

Mae llywodraethwr yn rhywun sydd:-

- yn wirfoddolwr;
- yn gofalu am addysgu, dysgu a phlant;
- yn cynrychioli pobl gyda diddordeb allweddol yn yr ysgol, yn cynnwys rhieni, staff, y gymuned leol a'r ALI;
- yn aelod o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i'w roi i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill pan fo angen;
- yn fodlon dysgu;
- yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol sydd yn cefnogi'r ysgol ond sydd hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n eu cyflawni;
- yn ddolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr ALI a'r ysgol.

Gellir cysylltu gyda'r cadeirydd drwy'r Pennaeth yn yr ysgol.

Sut mae'r Corff Llywodraethol yn rhannu gwybodaeth â rhieni ?

Caiff Adroddiad Blynyddol ei baratoi a'i ddosbarthu gan y Corff Llywodraethol yn ystod Tymor yr Hydref.

Mae'r canllawiau statudol ynglŷn â chynnal cyfarfod blynyddol i rieni wedi newid. Ceir mwy o wybodaeth ar y safwe isod :

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130503-statutory-guidance-parents-meetings-cy.pdf>

Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig. Roedd 335 o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawl i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol:

Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Cymerau, Ffordd Mela, Pwllheli Gwynedd LL53 5AR




CANLYNIADAU ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL

Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2)


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2015 gyda meincnodi

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwyledig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015
PSD	92	93	92	100	98	97	95	96	95
LCW	92	83	88	100	94	95	95	88	91
LCE	0	50	84	0	92	92	0	78	88
MDT	92	88	87	100	93	92	95	90	90
DCS	92	82	83	100	92	91	95	87	87



Perfformiad yr ysgol dros amser (2011 - 2015)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol a chanran debyg o ddysgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodyn: canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau colothau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1: Mae'r ysgol ymhith y 25% uchaf
- Chwarter 2: Mae'r ysgol ymhith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3: Mae'r ysgol ymhith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4: Mae'r ysgol ymhith y 25% isaf

Gnlp Prydau Ysgol am Ddim
16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Chwarter 3	Canolrif	Chwarter 2	Chwarter 1
PSD	94	95	98	100	95
LCW	86	92	95	98	91
LCE	87	91	96	96	88
MDT	88	91	95	96	90
DCS	83	89	94	95	87

Mae'r meincnodau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd tair-mllynedd data Prydau Ysgol am Ddim.

Nodiadau:


1. - - Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwyllianol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddysgybi gyrraedd y deiliant disgwyledig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT i dau a nall i LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddysgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn tynnu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6)


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2015 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015
Saesneg	88	86	87	100	94	93	93	90	90
Cymraeg	92	87	87	100	94	93	95	90	90
Mathemateg	88	88	88	100	95	92	93	91	90
Gwyddoniaeth	92	91	90	100	96	93	95	93	91
DPC	83	85	85	100	94	91	90	89	88



Perfformiad yr ysgol dros amser (2011 - 2015)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwarter 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Gnŵp Prydau Ysgol am Ddim

16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Chwarter Isaf	Chwarter 3	Canolrif	Chwarter 2	Chwarter Uchaf	Chwarter 1
Saesneg		88		92	93	96	
Cymraeg		85		90	95	99	
Mathemateg		88	93	93		97	
Gwyddoniaeth		90		94	95	100	
DPC		86		90	90	94	

Mae'r meincnodau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd tair-mllynedd data Prydau Ysgol am Ddim.

Nodladdau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gymaeddliad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I siorhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.


RHEOLAU YSGOL CYMERAU

Absenoldeb



Pan fo plentyn yn absennol disgwylir nodyn gan y rhieni yn rhoi'r rheswm dros yr absenoldeb. Hefyd, disgwylir nodyn yn gofyn caniatad cael bod yn absennol. I'r perwyl hwn, mae'r ysgol wedi paratoi ffurflenni pwrpasol. Trafodir achosion cyson o absenoldeb/hwyr gyda'r Swyddog Lles Addysg.

Arian



Cesglir yr arian cinio ar ddydd Llun ac ni dderbynir arian yn ddyddiol. Os yw'n gwbl amhosibl talu am ginio ar ddydd Llun yna, fe'i cesglir ar ddydd Gwener. Rhaid i'r ysgol fod wedi derbyn gwybodaeth rhoi hawl i'r plentyn gael cinio am ddim gan adran Budd-daliadau Cyngor Gwynedd cyn y gellir caniatáu hynny. Ni chaniateir i deuluoedd fynd i ddyled am eu cinio. Disgwylir i rieni anfon unrhyw arian mewn amlen bob amser gyda enw a dosbarth y plentyn yn glir arni.

Cost cinio - £2.05 y dydd (£10.25 yr wythnos)

Addysg Gorfforol



Rhaid i'r plant wisgo'n addas ar gyfer eu gwersi yn y neuadd - trowsus cwta yn unig i'r bechgyn a throwsus cwta a chrys-T i'r genethod. Yn yr un modd, rhaid cael gwisg addas ar gyfer gwersi chwaraeon.

Y plant hynny a ddaw â nodyn oddi wrth eu rhieni neu feddyg **yn unig** a esgusodir o'r gwersi hyn.

Beiciau



Mae gwahoddiad i'r plant mawr i ddod a'u beics i'r ysgol – cyn belled bod helmed diogelwch yn cael ei gwisgo. Atgoffir chi nad yw staff yr ysgol yn gyfrifol am y beiciau nac am ddiogelwch y plant ar y ffordd yn ôl nac ymlaen i'r ysgol.

Diogelwch



Nid oes unrhyw blentyn i adael libart yr ysgol yn ystod amser ysgol heb gais personol gan y rhieni iddo/iddi gael gwneud hynny, neu ar gais y pennaeth. Dim ond trwy ddrws ffrynt yr ysgol y gellir mynd cael mynediad i'r ysgol. Disgwylir i ymwelwyr a'r ysgol ganu'r gloch sydd wrth y drws hwnnw i gael mynediad.

Fferins, Ffrwythau a Diod

Os yw'r plant angen rhywbeth i'w fwyta rhwng prydau anogir hwy ddod â ffrwythau yn hytrach na fferins, creision a.y.y.b. Mae croeso i'r plant ddod a photel ddwr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae dwy Ffynnon Ddwr ar gael i'r plant. Rhaid i'r plant ddod a photel blastic eu hunain a mynd a hi adref bob dydd. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am lendid y poteli hyn.

Anadlyddion Asthma

Bydd angen llenwi ffurflen asthma os oes angen i unrhyw blentyn ddefnyddio anadlydd asthma yn ystod amser ysgol.

Plant/Rhieni yn Mynd a Dod i'r Ysgol


PEIDIWCH A DOD A CHAR AM YR YSGOL O Ffordd MELA

Disgwylir i rieni barcio eu ceir ar y Prom neu yn gwbl glir o fynedfa'r ysgol pan ddanfonant eu plant yn y bore neu wrth eu nôl ar ddiwedd y prynhawn. Ni ddylid parcio o gwbl yn Ffordd y Faenor.



Ni chaniateir rhieni a phlant gerdded trwy'r giat y ceir ond, yn hytrach, defnyddio'r ddwy giat i gerddwyr. Pwysleisir hyn oherwydd lechyd a Diogelwch. Anogir rhieni i'w plant fagu annibyniaeth trwy adael iddynt gerdded eu hunain i'r ysgol o'r giat.

Teganau



Ni ddylai'r plant ddod â theganau nac eiddo gwerthfawr, arian poced a.y.y.b. i'r ysgol gan nad oes gennym adnoddau i'w gwarchod ac na allwn fod yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd pe cânt eu malu neu eu colli. Ni chaiff plant ddod â ffonau symudol i'r ysgol.

Tynnu lluniau



Mae'r ysgol yn gwneud cryn ddefnydd o'r camera digidol. Os, am unrhyw reswm yr ydych yn anghysurus mewn perthynas â hyn fe fydd cyfle i chi fynegi hyn. Fe fydd yr ysgol yn cysylltu â chi ym Medi gan ddilyn canllawiau Cyngor Gwynedd.



Peidiwch a defnyddio gwefanau cymdeithasol i ddweud dim am yr hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Ymweliad Rhieni

Croesawir rhieni ymweld â'r ysgol. Pan fo rhieni yn awyddus i ddod i gael sgwrs â'r athro/athrawes yna, disgwylir iddynt drefnu amser gyda'r Pennaeth. Disgwylir ymwelwyr â'r ysgol gysylltu â'r Pennaeth yn gyntaf cyn mynd i weld athro/athrawes.

Mynd am dro



Manteisir ar gyfleoedd i fynd a'r plant am dro, weithiau heb roi rhybudd i chi fel rhieni. Efallai bydd rhywbeth wedi codi yn y dosbarth neu am fod y tywydd yn caniatáu.



GWYLIAU YSGOL 2015-2016

TYMOR:

Hydref 2015	1 Medi 2015	-	22 Rhagfyr 2015
Gwanwyn 2016	4 Ionawr 2016	-	24 Mawrth 2016
Hâf 2016	11 Ebrill 2016	-	18 Gorffennaf 2016

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mercher, 2 Medi, 2015.

GWYLIAU:

26 – 30 Hydref 2015	(Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2015 - 1 Ionawr 2016	(Gwyliau'r Nadolig)
15 - 19 Chwefror 2016	(Hanner-Tymor)
25 Mawrth 2016 – 8 Ebrill 2016	(Gwyliau'r Pasg)
2 Mai 2016	(Calan Mai)
30 Mai – 3 Mehefin 2016	(Hanner-Tymor)
19 Gorffennaf - 31 Awst 2016	(Gwyliau'r Hâf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Iau, 1 Medi, 2016 i athrawon, a dydd Gwener, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2015	22
HYDREF 2015	17
TACHWEDD 2015	21
RHAGFYR 2015	14
IONAWR 2016	20
CHWEFOR 2016	16
MAWRTH 2016	18
EBRILL 2016	15
MAI 2016	19
MEHEFIN 2016	19
GORFFENNAF 2016	14

	195

1 Medi 2015 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.



GWYLIAU YSGOL 2016-2017

TYMOR:

Hydref 2016	1 Medi 2016	-	16 Rhagfyr 2016
Gwanwyn 2017	3 Ionawr 2017	-	7 Ebrill 2017
Hâf 2017	24 Ebrill 2017	-	21 Gorffennaf 2017

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Gwener, 2 Medi, 2016.

GWYLIAU:

24 – 28 Hydref 2016	(Hanner-Tymor)
19 Rhagfyr 2016 - 2 Ionawr 2017	(Gwyliau'r Nadolig)
20 - 24 Chwefror 2017	(Hanner-Tymor)
10 - 21 Ebrill 2017	(Gwyliau'r Pasg)
1 Mai 2017	(Calan Mai)
29 Mai – 2 Mehefin 2017	(Hanner-Tymor)
24 Gorffennaf - 31 Awst 2017	(Gwyliau'r Hâf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Gwener, 1 Medi, 2017 i athrawon, a dydd Llun, 4 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2016	22
HYDREF 2016	16
TACHWEDD 2016	22
RHAGFYR 2016	12
IONAWR 2017	21
CHWEFOR 2017	15
MAWRTH 2017	23
EBRILL 2017	10
MAI 2017	19
MEHEFIN 2017	20
GORFFENNAF 2017	15

	195

1 Medi 2016 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Polisi Addysg Bywyd, Rhyw a Pherthnasedd

NOD

Nod y polisi hwn yw ychwanegu yn gyfrifol ac yn ddatblygiadol at wybodaeth a phrofiadau plant am eu cyrff a'u perthynas o'r byd o'u cwrpas. Trwy wneud hyn bydd y disgyblion yn gallu delio yn well yn ystod glasoed wrth ddatblygu sgiliau a hunain barch i fod yn hyderus yn eu harddegau.

Amcanion Cyffredinol

- Cyflwyno Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd fel rhan o raglen Addysg Personol a Chymdeithasol gynhwysfawr
- Paratoi disgyblion ar gyfer glasoed
- Datblygu sgiliau a hunain barch i gynorthwyo plant wrth gyrraedd eu harddegau
- Delio â phryder a chywiro camddealltwriaeth y gall plant eu cael o'r cyfryngau a chyfoedion
- Datblygu sgiliau i gynorthwyo plant i'w hamddiffyn eu hunain rhag profiadau rhywiol nad ydyn nhw am eu cael
- Trafod agweddau a gwerthoedd

Pwrpas ac amcanion Addysg Bywyd a Pherthnasedd yn yr Ysgol Gynradd:

- Dysgu am gylch bywyd
- I gadw'r disgyblion yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill
- I helpu'r disgyblion ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesol
- I helpu'r disgyblion siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff a pherthnasedd heb embaras
- I ddarparu gwybodaeth am:
 - enwau rhannau'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng gwryw a menyw
 - cyffyrddiad priodol ac amhriodol
 - perthynas cariadus
 - newidiadau glasoed
 - y broses atgenhedlu
 - tyfiant y baban yn y groth a genedigaeth
 - anghenion babanod a chyfrifoldebau rhieni
- Cychwyn paratoi'r disgyblion am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol a'r profiadau maent yn debyg o wynebu.
- I helpu'r disgyblion i addasu i newidiadau yn y teulu.
- I helpu'r disgyblion i ddeall eu teimladau nhw eu hun a theimladau pobl eraill.
- Dysgu'r disgyblion i barchu eu hunain ac eraill.

Cyfnod Sylfaen

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:-

- werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato
- bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol
- ddeall y berthynas rhwng teimladau a gwerthoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau.
- dyfu'n annibynnol o safbwynt diwallu eu hanghenion o ran hylendid personol, a bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol
- ofyn am gymorth pan fo angen
- fynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau - rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill
- fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mi fydd y disgyblion yn adnabod rhannau rhywiol o'r corff er mwyn gwahaniaethu rhwng gwryw a menyw. Y termau y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer gwryw yw pidyn a cheilliau a'r eirfa ar gyfer benyw yw bronnau a gwain/fagina. Mi fydd y termau yma yn cael eu defnyddio wrth gyfeirio at y rhannau yma o'r corff wrth drafod y pwnc o fewn yr ysgol.

Cyfnod Allweddol 2

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion wybod a ddeall:-

- y nodweddion a manteision corfforol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â ffordd iach o fyw
- y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasoed gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth
- ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill
- pwysigrwydd diogelwch personol
- sut i wahaniaethu rhwng cyffyrddiadau priodol a chyffyrddiadau amhriodol
- beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel

Erbyn blwyddyn 6 mi fydd yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'r rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasod gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth.

Cyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd yn yr Ysgol:

Cyflwynir Addysg Bywyd i ddisgyblion trwy:

- **sesiynau Amser Cylch**
- **trwy bynciau penodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol e.e. Gwyddoniaeth**
- **bynciau trawsgwricwlaidd**
- **gyfleoedd anffurfiol e.e. croesawu mamau i ddod i siarad â phlant am anghenion babanod**

Bydd cynnydd mewn dysgu yn gynnwys datblygu ac ymestyn y testun uchod ar adegau pendant yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 drwy ddatblygiad graddol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau a gwerthoedd.

Canllawiau ar faterion penodol ymwelwyr ac asiantaethau sy'n cyfrannu at Addysg Bywyd/Rhyw a Pherthnasedd:

- **Mi fydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw ymwelwyr proffesiynol ac ymwelwyr o'r gymuned sy'n cyfrannu at raglenni ABCh yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cytuno i'w ddilyn.**
- **Bydd athrawon yn trafod cyfraniadau cyn i'r ymwelwyr wneud cyflwyniadau i'r disgyblion i sicrhau eu bod yn addas ac yn gweddu i bolisi'r ysgol**
- **Cyfrinachedd (gweler isod)**

Cyfrinachedd

Dylid nodi na all athrawon gynnig cyfrinachedd diamod. Os ydy'r plant yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu ddweud rhywbeth sy'n achosi'r athrawon i feddwl eu bod dan beryg o gael eu cam-drin rhaid dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Bydd yr athrawon yn trafod cyfrinachedd gyda'r disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffiniau cyfrinachedd.

- **Wrth drafod cytundeb dosbarth gofynnir i'r disgyblion hŷn i beidio â thrafod cynhwysion y gwersi gyda disgyblion iau.**
- **Atgoffa'r disgyblion nad yw'n briodol gofyn cwestiynau personol.**
- **Mi fydd y disgyblion yn cael eu hannog i drafod cynnwys y gwersi gyda'u rhieni/gofalwyr.**

Ateb cwestiynau:

- **Bydd athrawon yn ceisio ateb cwestiynau cyffredinol y disgyblion yn onest wth ystyried oedran ac aeddfedrwydd y plentyn/plant.**
- **Bydd yr athrawon yn defnyddio blwch holi sy'n rhoi cyfle i blant ofyn cwestiynau'n ddienw a chyfle i'r athrawon ystyried y cwestiynau cyn ymateb.**
- **Os ydy disgybl yn gofyn cwestiwn am werthoedd bydd athrawon yn cyfeirio'r plentyn at ei deulu a cheisio osgoi rhoi ei safbwynt eu hun fel yr unig un cywir.**
- **Os yw'r athro/athrawes yn methu ateb, anogir y plant i siarad gyda'i rhieni.**

Hawliau Rhieni i eithrio eu plant:

- Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008.
- Os oes gan riant/gofalwyr bryder mae croeso iddynt ddod i'r Ysgol i drafod gyda'r Pennaeth.
- Mae'r trefniant hwn wedi ei nodi yn llawlyfr yr Ysgol.

Polisi Cyfle Cyfartal

Nod

Sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn a phob aelod o staff yn yr ysgol er mwyn galluogi pob unigolyn i gyrraedd ei lawn botensial. Datblygu pob unigolyn hyd ei eithaf heb ganiatau i'w ryw, cred, tras, iaith, anabledd, ymarweddiad, gwleidyddiaeth, tarddiad ethnig neu unrhyw nodwedd arall fod yn rhwystr i hynny.

Canllawiau

1. Ni fydd yr ysgol hon yn gwrthod derbyn unrhyw blentyn ar sail rhyw, hil, lliw nac anabledd.
2. Byddwn yn sicrhau fod pob aelod o staff yn cofnodi a dweud enw pob plentyn yn gywir, yn ôl ei ddewis ef/hi o'r ynganiad. Rhaid dangos parch at enwau o wahanol ddiwylliannau.
3. Sicrhau yr un cyfleoedd i blant ym meysydd gwisg (gan gynnwys clustlysau a.y.y.b.) dangos gofal dros blant eraill, coginio, chwaraeon, Addysg Rhyw, Celf a.y.y.b. Cymryd camau i adeiladu sgiliau a hyder plant mewn meysydd lle maent yn draddodiadaol yn brin o hyder e.e. gwnio neu ddawns i fechgyn, pêl droed neu adeiladu i ferched.
4. Sicrhau cyfleoedd cyfartal wrth siarad mewn trafodaethau dosbarth cyfan, gwaith grwp neu waith pâr.
5. Er hyn, rhaid cydnabod fod merched a bechgyn weithiau eisiau dewis gweithgareddau sy'n cael eu hystyried yn draddodiadol i un grwp neu'r llall. Hefyd, maent weithiau eisiau gweithio/chwarae mewn grwpiau/parau un rhyw. Rhaid osgoi mynnu fod plant yn 'cymysgu' i fodloni dymuniadau athrawon pan fo ganddynt resymau dilys dros eu penderfyniadau eu hunain.
6. Creu amgylchedd lle mae cydweithrediad yn ganolog a lle bydd plant yn gweithio mewn amrywiaeth o wahanol grwpiau – un rhyw neu gymysg, ar hap neu wedi'u trefnu – yn gyfforddus ac i bwrpas.
7. Creu awyrgylch lle nad oes ffafriaeth na stereoteipio.
8. Cynnig yr un cyfleoedd i bob unigolyn, beth bynnag fo'i iaith, diwylliant, cefndir hiliol a.y.y.b.
9. Gwneud defnydd o esiamplau o lawer o draddodiadau diwylliannol a chydabod bod gan Brydain gefndir ddiwylliannol amrywiol.
10. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn amlygu cryfderau pob plentyn beth bynnag fo ei allu academaidd, iddi/iddo gael ymdeimlad o hunan werth a llwyddiant.
11. Sicrhau mynediad cyfartal i adnoddau, offer a theganau e.e. annog y merched i chwarae gyda theganau mecanyddol neu ddefnyddio offer technoleg ac yn yr un modd annog y bechgyn i chwarae yn y tîp bach twt, gwisgo i fyny, gwnio a.y.y.b. Ni ystyrir fod rhai gweithgareddau yn addas i ferched neu fechgyn yn unig.
12. Datblygu agwedd bositif a gofalgarn tuag at bobl o bob cymuned gan groesawu oedolion o ystod eang o gymdeithasau i ymweld â'r ysgol
13. Rhoi cymorth i blant i archwilio'r syniad o stereoteipio er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau cytbwys mewn perthynas â'u hunaniaeth – rhywogaeth, cefndir diwylliannol neu ethnig, anabledd.
14. Sicrhau bod cosbau a ddefnyddir yr un fath i'r merched a'r bechgyn a'u bod yn cael eu defnyddio'n gyfartal.
15. Cynllunio gyda staff ategol i sicrhau defnydd o'r iard fydd yn osgoi unrhyw grwp yn cymryd drosodd un rhan ohonni ar draul plant eraill.
16. Darparu cefnogaeth er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr amser chwarae yn ategu egwyddoriaon Cyfleoedd Cyfartal yn eu gwaith gyda'r plant.
17. Rhaid bod yn agored i roi cyfle cyfartal wrth benodi staff dysgu a staff ategol, gwisg a'r defnydd a wneir o gyrsgiau, ymweliadau a.y.y.b.
18. Bydd unrhyw wahaniaethu anffafriol yn erbyn unrhyw blentyn neu oedolyn yn cael ei gymryd yn ddifrifol iawn. Ni oddefir symbolau, bathodynau nac arwyddluniau hiliol ar ddillad nac offer yn yr ysgol.

Casgliad

Nid lle i ddysgu academaidd yn unig yw ysgol – mae angen datblygu plant cyflawn, fydd yn aelodau cyfrifol, gwerthfawr o gymdeithas. Mae'n rhaid i oedolion mewn ysgol gofio eu bod yn rôl fodelau i'r plant.

Polisi Darparu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gan yr AALI

1.Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd yng ngofal Cyngor Gwynedd am gyfnod byr neu tymor hir

2.Cyd-destun

Mae consensws bellach ymhlith ymchwilwyr, llunwyr polisi, a'r bobl ifanc sy'n destun y polisi, eu bod yn dod wyneb yn wyneb â nifer o broblemau yn cynnwys

2.1 Bwlio (am eu bod yn agored i niwed, yn hytrach nag fel canlyniad penodol derbyn gofal yr AALI)

2.2 Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol

2.3 Teimlo'n unig fel canlyniad i fod ar wahân i deulu a/neu ffrindiau

2.4 Amharu ar eu haddysg cyn cael eu derbyn i ofal

2.5 Newid ysgol yn aml tra'n derbyn gofal

2.6 Poeni am yr hyn sy'n digwydd gartref

2.7 Agwedd negyddol neu dorcalonus cyfoedion, staff gofal ac athrawon gan gynnwys disgwyliad isel o gyrhaeddiad

2.8 Diffyg cyrhaeddiad yn arwain at ddiffyg cymhelliant a diffyg hyder

3.Datganiad o fwriad

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn unol â'i dyletswydd statudol yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddiogelu ac hyrwyddo lles plentyn sy'n derbyn gofal ac yn arbennig hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn

4.Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 4.2 Deddf Plant 2004 4.3 Deddf Addysg 1996

5.Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan pob plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol.

6. Dyletswydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd

6.1 Sicrhau fod pob plentyn yng ngofal yr AALI yn cael mynediad i addysg briodol ar gyfer ei allu neu'i ddawn

6.2 Mewn cydweithrediad ac adran gwasanaethau cymdeithsaol y cyngor, sicrhau hyfforddiant i athrawon yn y strategaethau a'r fethodoleg fydd yn hyrwyddo lles a chyflawniad addysgol plentyn sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

6.3 Rhannu arferion da yn y maes rhwng ysgolion

6.4 Mewn cydweithrediad â gwasanaethau cymdeithasol y cyngor, cadw rhestr gyfredol o athrawon a enwir fel eiriolwr dros plant mewn gofal cyhoeddus. Lle ystyrir bod angen gwahardd disgybl, bydd y Gwasanaeth Addysg yn sicrhau bod rhywun yn gweithredu fel eiriolwr dros y person ifanc

6.5 Enwi swyddog oddi fewn i'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am gadw golwg cyffredinol ar bresenoldeb y plant sydd mewn gofal

6.6 Bydd cynnydd addysgol pob disgybl yng ngofal yr awdurdod yn cael ei fonitro yn yr adolygiad statudol o drefniadau gofal. Lle bo'n bosib, i'r plant mewn gofal sydd â ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, bydd y cyfarfod blynyddol i drafod eu datganiad a'r cyfarfod i drafod eu cynllun gofal yn cael ei gyd-lynu.

6.7 Bydd y Gwasanaeth yn ymateb i'r disgwyliad arnynt i sicrhau lleoliad addysgol ar gyfer disgybl mewn gofal o fewn 20 diwrnod ysgol fan bellaf, lle na fydd cadw at yr ugain diwrnod yn bosibl, byddent yn darparu addysg dros dro, nes datrys y sefyllfa.

6.8 Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yng ngofal yr awdurdod yn rhan o unrhyw drafodaeth a phenderfyniadau ynglŷn â'u haddysg. Bydd eu barn yn cael ei ystyried a'i gofnodi'n ofalus.

6.9 Asesu pa agweddau ar gymorth addysg fydd eu hangen ar blant ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu

6.10 Bydd pob plentyn mewn gofal yn cael i cyfle i gyfranogi o weithgareddau tu allan i oriau ysgol a drefnir, gan gynnwys rhai academaidd, diwylliannol, chwaraeon a hamdden, er mwyn lledu profiadau y disgyblion a chodi eu hyder a'u hunan ddelwedd.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Dylai corff lywodraethol ysgolion sicrhau bod polisi gweithredol ganddynt ar gyfer plant yng ngofal yr awdurdod lleol. Bydd y polisiau gorau yn cynnwys

- Dynodi aelod o staff i dderbyn cyfrifoldeb am y maes
- Trefn derbyn gwybodaeth parthed niferoedd sydd yn derbyn gofal
- Trefn sicrhau bod y plant mewn gofal yn cael cyfle cyfartal yn yr ysgol
- Sicrhau bod athro dynodedig ar gyfer plant mewn gofal
- Sicrhau awyrgylch bositif tu fewn i'r ysgol
- Sicrhau trefn effeithiol o fonitro cynnydd addysgol a threfn effeithiol i ddelio â thangyflawni.
- Monitro cynnydd plant mewn gofal yn yr ysgol o'i gymharu a thargedau cyrhaeddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

7.2 Mae gan lywodraethwyr ysgolion ddyletswydd i gyfarfod â gofynion Deddf Plant , Deddfau Addysg 1981,1988, 1996, a Deddf Plant 2004

8. Cyfrifoldebau a dyletswyddau Penaethiaid ysgolion

8.1 Sicrhau bod aelod o staff wedi ei ddynodi i dderbyn cyfrifoldeb penodol am ddisgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol

8.2 Sicrhau bod yr ysgol yn monitro absenoldeb disgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, a chyflwyno adroddiad i'r awdurdod addysg.

8.3 Sicrhau awyrgylch ac ethos gadarnhaol parthed disgyblion yng ngofal yr awdurdod, gan greu ysgol ple mae stereoteipio negyddol am y disgyblion hyn yn cael ei herio.

8.4 Bod yn ymwybodol o sensitifrwydd gwahardd disgyblion sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol, gan gydnabod yr angen i blant felly dderbyn addysg ddi-fwlch.

8.5 Sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar Gynllun Addysg Personol (CAP). Cyfrifoldeb yr ysgol, ar ôl ymgynghori gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau priodol yw llunio CAP. Dylid cytuno â'r CAP cyn gynted â bo modd ,ac o fewn 20 diwrnod fan bellaf ar ôl i'r plentyn fynd i ofal neu i ysgol newydd.

8.6 Sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbennig yn cael eu darparu mewn cydweithrediad a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Arbennig yn yr ysgol.

Polisi Codi Tâl am Weithgareddau

Nod

Mae Corff Llywodraethu Cymerau yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan amrywiaeth eang o weithgareddau ychwanegol, gan gynnwys gwersi nofio a gymnasteg, ymweliadau, creu gwrthrychau, mynychu perfformiadau a.y.y.b.

Amcanion

Hyrwyddo a darparu cyfleoedd amrywiol o ran cwricwlwm eang a chytbwys ac o ran profiadau all-gwricwlaidd i bob plentyn.

Canllawiau

1. Ceisiwn gyfraniadau gwirfoddol gan rieni i sicrhau fod gweithgareddau sy'n digwydd yn oriau ysgol, megis bws gwersi nofio a defnydd o'r gampfa yn gallu parhau.
2. Os oes unrhyw riant yn ei chael yn anodd i dalu, fe'i gwahodd i weld y Pennaeth ac fe wneir trefniadau eraill i oresgyn y broblem. Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu neu amharodrwydd i gyfrannu'n wirfoddol.
3. Mae'n bosib talu'n llwyr neu'n rhannol am ymweliadau yn 1. uchod o Gronfa'r Ysgol gan gofio hefyd bod angen arian o'r Gronfa i amrywiaeth o sefyllfaoedd ac offer eraill.
4. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i ddileu neu ohirio unrhyw weithgaredd os nad yw cyfanswm y cyfraniadau yn ddigonol.
5. Anfonir llythyr at y rhieni/gwarchodwyr cyn ymweliad neu berfformiad a.y.y.b. yn cyhoeddi bwriad yr ysgol ac yn nodi'r gost.
6. Codir tâl ar rieni am unrhyw ddifrod i lyfrau neu offer addysgol, ffenestri, drysau neu ffitiadau adeiladau ysgol yn deillio o gamymddygiad disgybl.
7. Codir tâl yn rhannol yn ôl argymhellion yr Awdurdod am wersi Offerynnol unigol.
8. Codir tâl yn llawn am weithgareddau sydd yn cymryd lle yn gyfangwbl neu gan mwyaf y tu allan i oriau'r ysgol ac nad ydynt yn angenrheidiol i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu Addysg Grefyddol statudol.
9. Codir tâl am gostau bwyd a llety yn ystod ymweliadau preswyl ag eithrio ar blant sydd â hawl i ad-daliad statudol.
10. Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau, os o gwbl, y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol neu ffynhonnell arall i dalu cyfran o gost y gweithgareddau.
11. Dirprwyir i'r pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu'r polisi hwn.

Casgliad

Mae ysgolion angen cyfraniad ariannol gan rieni er mwyn medru cynnal gweithgareddau i gyfoethogi profiadau'r disgyblion a chodi safonau'r addysg. Er hyn, rhaid diogelu cyfleoedd i bob plentyn allu elwa o holl weithgareddau, ymweliadau a threfniadau'r ysgol a sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn, beth bynnag fo ymroddiad ei rieni, neu eu gallu i gyfrannu.